PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 35 | Awst 31, 2023 | 50c.

## Y Parchg Dr R. Alun Evans



Trist iawn gennym oedd clywed yr wythnos hon am farwolaeth y Parchg Dr R. Alun Evans. Cydymdeimlwn gyda'i deulu yn eu profedigaeth yn enwedig ei briod Rhiannon a'i blant Betsan a Rhys. Bu R. Alun Evans yn weinidog i'r Arglwydd Iesu, yn ddarlledwr o fri ac yn gyn-lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

# Prysurdeb ym Mhen-rhys

## Newyddion o Eglwys Llanfair, Pen-rhys

### Y Pasg

Roedd wythnos y Pasg yn brysur iawn yn Llanfair, yn cynnwys nifer o oedfaon a gwahanol weithgareddau: pererindod o Ffynnon Fair i'r amffitheatr, i'r cerflun o'r Forwyn Fair ac i fyny at Lanfair; helfa wyau Pasg, gwerthiant nwyddau yn yr awyr agored ar gyfer Cymorth Cristnogol, taith gerdded ar fore Sul y Pasg ac yna mwynhau brecwast gyda'n gilydd yn y caffi.

### Ysgol Sul

Fel arfer, mae tair ohonom (Anne, Natasha a finne) yn cymeryd tro i baratoi ac arwain ein hysgol Sul, ond yn ddiweddar ni'n falch iawn bod tair merch a bachgen sy'n ffyddlon iawn wedi bod yn awyddus i ymuno a'r rota, sef Carly 12 oed, Maddie 15 oed, Tyra 16 oed, a Harvey sy'n 11. Mae'n gyfle ardderchog iddyn nhw ac i ni fel oedolion gael ein hannog i ddysgu ac i weithio gyda'n gilydd.

### Astudiaeth Feiblaidd

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae hi wedi bod yn fraint ac yn brofiad arbennig i groesawu ein ffrind annwyl, Parchg Dr John Morgans, atom ar fore dydd Llun ar gyfer ein hastudiaeth Feiblaidd. Ar ôl bod yn astudio gwaith Marcus Borg am gyfnod, rydyn ni wedi dechrau ail-astudio deunydd diddorol dros ben John sef, 'Making Sense of our World', yn seiliedig ar waith Alan T. Dale, gyda John yn ein harwain. Mae'r grŵp yn cwrdd o 11-1 o'r gloch a chroeso i unrhyw un ymuno â ni.

### Mannau Cynnes

Yn ogystal â'n caffi sydd ar agor 3 diwrnod a 2 noson o'r wythnos, dechreuon ni fore coffi Mannau Cynnes yn y Lolfa ar fore dydd Gwener 'nôl ym mis Hydref y llynedd. Mae'n boblogaidd, a daw phobl ynghyd i fwynhau te, coffi a thost am ddim a chael cyfle i sgwrsio. Un bore Gwener, cawsom y cyfle i wneud gemwaith allan o ddeunydd wedi'i ailgylchu a thro arall cawsom ein hyfforddi i fod yn Ffrindiau Dementia gyda'n ffrind Alison, sy'n gwirfoddoli yn lleol gydag elusen Alzheimer's Society Cymru.

### Wythnos Cymorth Cristnogol

Ers y cyfnod pan oedd Norah a John Morgans yn byw ac yn gwasanaethu gyda ni ym Mhen-rhys, rydyn ni'n cynnal mis Cymorth Cristnogol – yn hytrach nag wythnos yn unig. Eleni, fe ddechreuon ni gyda gwerthiant pen-bwrdd (tabletop sale) ar ddydd Llun Gŵyl y Banc, 1 Mai. Cawsom oedfa Cymorth Cristnogol ar ddyddiau Sul, 14 ac 21 Mai a sawl oedfa gyda phlant o ysgol gynradd Pen-rhys yn dod i Lanfair ar foreau Llun. Cynhaliwyd casgliad llwyddiannus o dŷ i dŷ yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, gwerthiant pen-bwrdd yn ystod wythnos hanner tymor a stondin yn Ffair Haf yr ysgol ym mis Gorffennaf.

*parhad ar dudalen 2*











# Cyngerdd Haf:
## Er budd Apêl Daeargryn Twrci a Syria DEC

'Wel am gyngerdd bendigedig,' oedd ymateb y gynulleidfa wrth iddynt adael y cyngerdd er budd apêl daeargryn Twrci a Syria ar nos Fercher, 12 Gorffennaf. Cynhaliwyd y cyngerdd yn yr eglwys Fethodistiaid, yr Eglwys Newydd. Mwynhaodd y gynulleidfa noson hyfryd yng nghwmni Côr Canna a'r gantores Parisa Fouladi. Cafwyd anerchiad gan Cynan Llwyd, Trefnydd Tearfund Cymru, am yr angen dirfawr sydd yn parhau yn Nhwrci a Syria yn sgil y ddaeargryn a darodd y ddwy wlad ym mis Chwefror eleni. Rhannodd Cynan beth o hanes dirdynnol y dioddefaint enbyd fu yn sgil y ddaeargryn, a'r angen difrifol am adnoddau sylfaenol ar gyfer bywyd bob dydd.

Arweiniwyd y noson yn hwylus iawn gan y Parchedig Alun Tudur, gweinidog eglwys Ebeneser. Yno yn yr eglwys Fethodistiaid y cynhelir oedfaon prynhawn Sul Ebeneser.



### Côr Canna

Swynwyd y gynulleidfa gan leisiau'r côr dan arweiniad Delyth Medi Lloyd a'r gyfeilyddes, Kim Lloyd Jones. Cafwyd arlwy cerddorol oedd wrth ddant pawb, gyda detholiad o ganeuon amrywiol, yn cynnwys ambell emyn, caneuon pop, a chaneuon clasurol. Cafwyd unawd gan Eiriana Jones-Campbell ac fe ganodd hi hefyd ddeuawd gyda'i mam Lona. Mae'r côr llwyddiannus hwn yn ymarfer ar hyn o bryd ar gyfer yr Ŵyl Gerdd Dant sy'n cael ei chynnal yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd.



### Parisa

Mae Parisa Fouladi yn gantores sy'n mynd o nerth i nerth, ac yn gwneud enw i'w hun ar y Sin Roc Gymraeg. Mae hi'n perfformio mewn nifer o wyliau'r haf gan gynnwys Tafwyl a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae hi ar fin rhyddhau EP newydd ac mae ei chaneuon i'w clywed yn aml ar Radio Cymru. Perfformiodd Parisa bedair cân yn ystod y cyngerdd, pob un ohonynt ag arwyddocâd personol. Canodd un o'i chaneuon yn y Gymraeg a Farsi, iaith Iran, gwlad enedigol ei thad. Gellir gwrando ar ei chlasur 'Lleuad Du' ar Spotify.



Diolchodd Alun Tudur i Gôr Canna a'u harweinydd Delyth Medi Lloyd, i'r gyfeilyddes Kim Lloyd Jones, i Parisa Fouladi a'i chyfeilydd Charlie am eu perfformiadau, a diolchodd i bawb am gefnogi'r noson.

Pwrpas y noson oedd codi arian at Apêl DEC, Daeargryn Syria Twrci. Llwyddwyd trwy gyfrwng y digwyddiad hwn i godi dros £1,800 tuag at yr apêl, er budd yr elusennau sy'n gweithio'n ddiwyd yn Nhwrci a Syria ac sy'n cynnig gobaith i'r trigolion lleol.

**John Hayes**

*Diolch o galon i John a Bethan Hayes am gydlynu'r trefniadau ar gyfer y cyngerdd ac i'r criw o aelodau Ebeneser fu'n ddygn yn cynorthwyo gyda'r holl drefnu.*

# Prysurdeb ym Mhen-rhys – *parhad*

**Prosiect Tu Hwn i'r Gofyn**

Ers dros flwyddyn a hanner mae Cwmni Dawns Cymru wedi bod yn trefnu gweithgareddau yn Llanfair gydag artistiaid yn arwain a'n gwirfoddolwyr lleol yn helpu, sef grŵp rhiant a phlentyn, a grŵp ymarfer corff i oedolion ar ddydd Mercher a *parkour* a *beatboxing* ar nos Fercher. Ar nos Wener 12 Mai aeth bws ohonom o Ben-rhys i Theatr y Sherman i weld 16 o'n plant yn perfformio yn y cyntedd ac yna gwylio'r dawnswyr proffesiynol ar lwyfan y theatr mewn digwyddiad i ddathlu pen-blwydd Cwmni Dawns Cymru yn 40 oed. Roedd hi'n noson i'w chofio i bawb oedd yn bresennol!

### Minny Street, Caerdydd:

Roedd hi'n bleser mawr croesawu'r Parchg Owain Llŷr, Margaret Davies a ffrindiau eraill o eglwys Minny Street, Caerdydd atom ar ddydd Sul, 10 Gorffennaf er mwyn ymuno â'n hoedfa a chael paned o de a sgwrs. Rydyn ni'n ddiolchgar dros ben am y rhoddion hael o beli basged, rygbi a phêl-droed gawsom oddi wrthynt i gyflwyno i blant ac oedolion ym Madagascar. Mae'r cyfeillgarwch rhyngom fel dwy eglwys yn werthfawr iawn. Cawsom groeso bendigedig wrth ein ffrindiau pan aethon ni i Minny Street y llynedd.

**Sharon Rees**

Yr Adran Gydenwadol

AWST 31 2023 RHIF 131

# Deffrwch! neu fydd ’na ddim coffi



Andrew Sully yn annerch o flaen y murlun newid hinsawdd



Profi’r coffi ar y stondin

‘Erbyn i chi orffen eich brecwast heddiw, fe fyddwch chi wedi dibynnu ar fwy na hanner gweddill y byd.’

Dyfyniad enwog Dr Martin Luther King, sydd wedi cael ei ddefnyddio yn aml iawn dros y blynyddoedd gan Gymorth Cristnogol i hybu’r pwysigrwydd o gefnogi a phrynu cynnyrch Masnach Deg, gan ddangos sut mae ein bywydau dros y byd yn cysylltu â’i gilydd, ein dibyniaeth ar ein gilydd yn ddyddiol, a sylweddoli hyn er mwyn cynnal heddwch dros y byd.

Braint oedd cael bod yn rhan o Babell yr Eglwysi eleni yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Dyma’r tro cyntaf, dwi’n credu, i Gymorth Cristnogol wneud hyn yn hytrach na chael uned drws nesa! Roedd yn fendith bod ymysg yr enwadau a chefnogwyr bob dydd a chael cyfle i sgwrsio, i ddiolch a dathlu’r holl waith sy’n digwydd ar draws Cymru.

Anghyfiawnder Hinsawdd ac ymgyrch #RiseUpPayUp oedd ein thema, gan ddefnyddio coffi fel ffocws. Ydych chi’n dal i arogli’r coffi yn y babell? Neu’n dal i drio dewis rhwng coffi o Kenya neu Colombia? Ffermydd bychain sy’n cynhyrchu’r coffi oedd gennym, a’r ffermwyr yma a’u cymunedau dros y byd sydd yn byw ar flaen newidiadau yn yr hinsawdd. Mae tyfu coffi yn sensitif iawn i newidiadau anwadal y tywydd a’r canlyniad yw fod planhigion yn cnydu llai o ffrwythau. Wrth i dymheredd y byd godi gallwn weld gostyngiad o tua 50% yn y tir sy’n addas ar gyfer tyfu coffi a chynnydd yn y pryfed a’r afiechydon all ddifa’r planhigion coffi.

Nid coffi yn unig sy’n agored i’r risg yma wrth gwrs.

Mae’r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar gymunedau bregus dros y byd. Mae pobl yn colli eu cartrefi, yn colli tir ar gyfer tyfu bwyd ac yn colli eu bywoliaeth o ganlyniad i stormydd cryfach, tanau, llifogydd a methu rhag-weld y glaw sy’n cael dylanwad ar gynhyrchu bwyd ar draws y byd.

Dyma yw’r cynllun Colled a Difrod, fel y bu i’r Parch. Andrew Sully, Pennaeth Cymorth Cristnogol, egluro yn ei gyflwyniad ddydd Llun. Yn gefndir i sgwrs Andrew yr oedd murlun a grëwyd wrth ailgylchu hwyl cwch gan yr artist Ffion Roberts-Drakley. Y briff i Ffion oedd murlun yn dangos cread Duw yn ei holl gyflawnder ac yn arwain at anghyfiawnder hinsawdd. Mae’r dyfyniad o Hosea 4:3 yn ysgytwol. Bydd y gwaith hwn ar gael i deithio o gwmpas Cymru dros y misoedd nesaf wrth i ni ymgyrchu a chodi llais dros gymunedau mwyaf bregus y byd cyn COP28 ym mis Tachwedd.

Cefnogi teuluoedd i godi allan o dlodi eithafol yng nghefn gwlad Malawi drwy ddatblygu bywoliaeth gynaliadwy a chynyddu incwm y mae prosiect REAP (Risk-informed Early Action Partnership). Cefnogwyd y prosiect yma gyda chasgliad anrhydeddus iawn o £700 yn dilyn oedfa bore dydd Sul yr Eisteddfod. Ond gan fod y prosiect yn derbyn arian cyfatebol, bydd y casgliad hwn yn gwneud gwaith fydd yn werth £1,400 yn Malawi! Llongyfarchiadau a diolch am bob cyfraniad ac i bob casglwr yn y pafiliwn.

Hadau Gobaith (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Ffynhonnau Byw (Undeb yr Annibynwyr) a Talentau Gobaith (Undeb y Bedyddwyr) – nid yn unig y mae’r rhain yn gyfle i enwadau ar draws Cymru berchnogi apel arbennig a chefnogi gwaith Cymorth Cristnogol, ond o ganlyniad byddant yn newid bywydau ac yn rhoi gobaith i deuluoedd bregus yn Kenya, Honduras, Zimbabwe a Cholombia. Un o gryfderau mwyaf

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Deffrwch! neu fydd 'na ddim coffi*
*(parhad o dudalen 1)*

perthynas Cymorth Cristnogol gyda'r enwadau yng Nghymru ydi'r apeliadau enwadol. Rydyn ni'n hynod o falch o'r cydweithio yma er mwyn creu newid a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl dros y byd.

Gwerthfawrogir y cydweithio bob amser – mae apêl enwadol ddwyieithog, er enghraifft, yn ein galluogi i weithio gydag eglwysi a chapeli Cymraeg a Saesneg a chael adnoddau addoli yn y ddwy iaith. Tystiolaeth gadarn eich bod yn gwneud gwahaniaeth. Diolch o galon i Cheryl Williams, y Parch. Judith Morris a'r Parch. Robin Samuel am eu cyflwyniadau wrth ddathlu, diolch a chyhoeddi apeliadau ar gyfer yr enwadau eleni.

Pleser hefyd oedd cael cwmni dau fudiad pwysig i rannu bwrdd gyda Chymorth Cristnogol, sef Amnest Rhyngwladol a Cofleidio'r Dwyrain Canol, dau fudiad sydd wedi bod yn gefnogol iawn i gyfres o wylnosau a gynhaliwyd dros 30 o fisoedd yn ddi-dor ers Ionawr 2021. Penllanw'r gyfres yma oedd Gwylnos Heddwch ym Mhabell yr Eglwysi nos Lun am 6 o'r gloch yng nghwmni Archesgob Cymru, y Parchedicaf Andrew John, Anna Georgina Chitty, y Parch. Andrew Sully a'r Parch. Pryderi Llwyd Jones. Roedd yr awyrgylch yn arbennig iawn. Diolch i bawb am fynychu ac am gymryd rhan. Er bod ein cyfres o wylnosau misol wedi dod i ben, nid dyma'r diwedd ar gynnal gweithgareddau dros heddwch, ac mae cyfleoedd newydd ar y gorwel ar ein cyfer.

Diolch yn fawr iawn i'r llu fu'n gwirfoddoli drwy roi o'u hamser wrth ein bwrdd yn ystod yr wythnos; hebddoch chi mi fyddai bod yn bresennol drwy'r dydd, bob dydd, yn anodd iawn. Diolch arbennig hefyd i Meilyr Tomos am ein diddanu gyda'i gasgliad o emynau oddi ar ei ail CD a ryddhawyd yn ddiweddar. Mae Meilyr yn gefnogol iawn i Gymorth Cristnogol ers blynyddoedd ac yn cyfrannu canran o werthiant ei CDs i Gymorth Cristnogol. Diolch i ti, Meilyr.



Murlun argyfwng hinsawdd Cymorth Cristnogol


Be sy'n digwydd nesa? Yn COP22 cytunodd arweinyddion y byd i sefydlu cronfa Colled a Difrod. Ond doedd dim cytundeb ar yr amseru na sut i fynd ymlaen â'r gronfa: faint ddylid ei gyfrannu a gan pwy. Mae'r gronfa'n wag ac yn y cyfamser mae cymunedau bregus yn cael eu gwthio ymhellach ac ymhellach i dlodi difrifol. Dyma'r cymunedau sydd wedi cyfrannu leiaf tuag at y newid yn yr hinsawdd. Mae gennym gyfrifoldeb i weithredu.

Rydym yn galw ar lywodraethau dros y byd i sicrhau symud cyllid ar frys i'r gronfa Colled a Difrod. Gallwch chithau fod yn rhan o'r gweithredu drwy wneud un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- trefnu gwasanaeth ar y thema drwy dderbyn a defnyddio ein hadnoddau addoli;
- trefnu Bore Coffi Masnach Deg yn eich cymuned i godi ymwybyddiaeth o anghyfiawnder hinsawdd;
- cyfarfod eich AS/ASenedd dros baned o goffi i drafod sut y gallant gefnogi ymgyrch Colled a Difrod Cymorth Cristnogol.

Am unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Llinos: lroberts@cymorth-cristnogol.org


*Llinos Roberts*




Meilyr Tomos yn codi arian at Gymorth Cristnogol




Cynrychiolwyr o EBC yn dathlu diwedd eu hapêl Hadau Gobaith




Andrew John yn yr wylnos heddwch



Judith Morris yn sôn am apêl y Bedyddwyr

ADNABOD

# Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

### 37 Trefnu priodas (Rhan 1)

**Darllen: Genesis 24:1–9**

**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 160)**

Wrth edrych ar y bennod hon yn hanes Abraham, peidiwch ag anwybyddu'r adnod gyntaf: 'yr oedd yr ARGLWYDD wedi ei fendithio ef ym mhob dim'. Yn unol â'i addewid wrth alw Abraham, ac yntau bellach mewn gwth o oedran ac er troeon yr yrfa, ym mhob peth mae wedi byw o dan y fendith. Nid nad yw pobl yr Arglwydd yn cwestiynu hyn o bryd i'w gilydd. Meddyliwch am Asaff yn Salm 77: 'Yn nydd fy nghyfyngder ceisiais yr Arglwydd, ac yn y nos estyn fy nwylo'n ddiflino; nid oedd cysuro ar fy enaid. Pan feddyliaf am Dduw, yr wyf yn cwyno; pan fyfyriaf, fe balla f'ysbryd.' Ond buan y mae yntau yn cofio, yn cydnabod nad yw 'deheulaw'r Goruchaf wedi pallu', ac yn hyn, yn arddangos amheuon. Ond mae'n gwybod hefyd mai yn y cofio fod yr 'Arglwydd wedi ei fendithio ym mhob dim' y mae ateb amheuon.

O ran sylwedd y bennod, dyhead Abraham yw gweld ei fab Isaac yn priodi, a hwnnw bellach yn ei bedwardegau. Mae consýrn tad yn dod i'r golwg, fel mae angen Isaac yn ei alar yn amlwg, ond mae cyfrifoldeb cyfamodol hefyd yn ganolog yma. Nid amau'r Duw sydd wedi addo bendithio'i had a gallu Duw i sicrhau hynny, bid a fo, sydd yn y bennod, ond yn hytrach weithgarwch ffydd. Mae'r bennod drwyddi draw yn tystio i'r Duw sy'n sofran mewn rhagluniaeth, ond fe welir hefyd ein cyfrifoldeb ninnau i ddefnyddio moddion arferol wrth geisio sicrhau bwriadau Duw yn ein bywydau, fel ym mywyd y teulu. Peth rhyfedd iawn fyddai i rieni ymddiried y bydd Duw yn dod â'u plant i adnabod Iesu, a ninnau'n gwneud dim i ddefnyddio'r moddion y mae Duw wedi'u rhoi inni. Nid amau penarglwyddiaeth Duw yw hynny, ond ymarfer ein ffydd o ddydd i ddydd.

Mae dymuniad Abraham yn benodol yn y gwaith yma – nid darganfod gwraig ond darganfod gwraig benodol gan ofyn i'w was addunedu: 'na chymeri wraig i'm mab o ferched y Canaaneaid yr wyf yn byw yn eu plith, ond yr ei i'm gwlad ac at fy nhylwyth, i gymryd gwraig i'm mab Isaac' (adn. 3–4). Tebyg fod y cais yn swnio'n chwithig iawn i bobl sydd wedi eu magu â'r syniad mai dim ond cariad sy'n bwysig. Ond yn yr Hen Destament, fel ag yn y newydd, sylweddolir beth yw effaith perthynas anghymarus. Yn ddiweddarach yn hanes Isaac a Rebeca fe gawn gyfeiriad at y loes achoswyd iddynt pan briododd Esau ferched o blith yr Hethiaid, a hynny'n fwriadol i darfu ar ei rieni. Yn Genesis 27:46 cawn Rebeca yn dweud wrth Isaac: "Yr wyf wedi blino byw o achos merched yr Hethiaid. Os prioda Jacob wraig o blith merched yr Hethiaid fel un o'r rhain, sef un o ferched y wlad, i beth y byddaf fyw?"

Yn ddiweddarach cawn olwg ar sail y consýrn yn Deuteronomium 7, 'Paid â gwneud cytundeb priodas â hwy trwy roi dy ferched i'w meibion a chymryd eu merched yn wragedd i'th feibion, oherwydd fe wnânt i'th blant droi oddi wrthyf ac addoli duwiau eraill' (adn. 3–4). Mae Paul yn dadlau yn 2 Corinthiaid 6 fod ein dealltwriaeth o'n corff fel 'teml y Duw byw' yn peri na ddylem 'ymgysylltu'n amhriodol ag anghredinwyr' oherwydd 'Pa gytundeb sydd rhwng teml Duw ac eilunod?' (adn. 14, 16) Wrth siarad am briodas yn 1 Corinthiaid 7 mae'n pwysleisio hawl gwraig 'i briodi pwy bynnag a fyn, dim ond iddi wneud hynny yn yr Arglwydd' (adn. 39).

Rhywbeth arall sy'n hawdd ei golli yn y bennod yw gorchymyn Abraham i beidio caniatáu i Isaac adael y wlad yma yr oedd yr Arglwydd wedi ei haddo iddo. Rhaid fod hyn yn arwyddocaol oherwydd ceir cyfeiriad at y gorchymyn pan mae'r gwas yn holi a fyddai'n briodol caniatáu i Isaac i fynd gydag ef i sicrhau llwyddiant, ac yn ei ailadrodd wrth sicrhau'r gwas y bydd Duw yn anfon angel i'w arwain (gw. adn. 6,8). Er ei bod yn anodd dirnad o'r testun beth oedd gofid Abraham yn y mater hwn, eto, mae'n amlwg fod y rhai sy'n awyddus i feithrin duwioldeb ac ymddiriedaeth yn Nuw a'i addewidion yn awyddus hefyd i sicrhau, hyd y bo modd, na fyddant yn gosod temtasiwn diangen ar eu ffordd. I ddychwelyd eto at Hebreaid 11, 'Ac yn wir, pe buasent wedi dal i feddwl am y wlad yr oeddent wedi mynd allan ohoni, buasent wedi cael cyfle i ddychwelyd iddi' (adn. 15).

I ddiweddu, dyma'r geiriau olaf sy'n cael eu cofnodi o enau Abraham, ac yn gwbl wahanol i'r geiriau cyntaf y clywn ganddo. Mae'r geiriau cyntaf yn mhennod 15, geiriau sy'n cwestiynu addewid Duw, yr addewid am fab a'r addewid am wlad: '"O Arglwydd DDUW, beth a roddi i mi, oherwydd rwy'n para'n ddi-blant"… "Edrych, nid wyt wedi rhoi epil i mi; a chaethwas o'm tŷ yw f'etifedd" … "O Arglwydd DDUW, sut y caf wybod yr etifeddaf hi?"' (15: 2–3,8) Bellach, ei eiriau olaf yw geiriau ffydd, 'Yr ARGLWYDD, Duw'r nefoedd, yr un a'm cymerodd o dŷ fy nhad ac o wlad fy ngeni, ac a lefarodd a thyngu wrthyf, a dweud, "Rhof y wlad hon i'th ddisgynyddion", bydd ef yn anfon ei angel o'th flaen, ac fe gymeri wraig i'm mab oddi yno' (adn. 7).

1. Ym mha ffyrdd y byddwch yn sicrhau eich bod yn gweld yr Arglwydd yn eich bendithio 'ym mhob dim' yn eich profiadau amrywiol?
2. Yng nghyfieithiad Ben Davies o emyn Norman Macleod cawn y geiriau, 'cred yn Nuw a gwna dy waith'. Sut mae gwneud y defnydd gorau o'r moddion sydd yn yr eglwys i gredu a gweithredu?
3. Yn ei waeledd olaf mae Thomas Charles yn ysgrifennu'n aml at ei ffrindiau am awydd i ollwng gafael yn y byd gan fod harddwch y nefoedd mor agos. Beth fyddech chi'n ddymuno'i ddweud olaf?

BBC radio cymru


**Radio Cymru**
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 3 Medi, am 7:30yb a 16:30yp**
Catrin Angharad Jones yn cyflwyno emynau gan Gôr Esceifiog
**Sul, 3 Medi, am 12yp**
Oedfa dan ofal Aled Myrddin, Machynlleth

# PERERINDOD I HENDY-GWYN A'R PRESELAU

*Dyma ail ran hanes pererindod Gofalaeth Bro Myrddin gan y Parchg Ddr Emyr Gwyn Evans.*

### Brwydr y Bryniau

Braf oedd cael cwmni gweinidog Bethel, y Parchg Eirian Wyn Lewis ac aelodau o'i braidd, yn cynnwys Dyfed Capel, fel caiff ei adnabod, oedd yno i'n croesawu. A thra ar y fynwent cawsom ein hatgoffa am Frwydr y Preselau 1946–48 sef yr ymgyrch arwrol gafwyd i warchod a diogelu bryniau 'sanctaidd' Sir Benfro wedi'r Ail Ryfel Byd. Roedd y Swyddfa Ryfel ar y pryd am feddiannu bron i 60,000 o erwau'r Preselau i fod yn faes ymarfer i'r fyddin. Fe'n hatgoffwyd am hanesion ac arweiniad dewr gweinidogion ac ysgolfeistri'r ardal yn ystod yr ymgyrch, a chlywed yn neilltuol hanesion am arweiniad dau weinidog, sef W. Parri Roberts, Mynachlog-ddu a Joseph James, Llandysilio, neu 'Parri Bach a Jo' fel y cawsent eu hadnabod yn yr ardal ar lafar gwlad. Mae eu geiriau a'u safiadau yn rhan bellach o chwedloniaeth yr ardal, a gellir darllen am eu rhan yn y gyfrol *Brwydr y Preselau* o waith y llenor Hefin Wyn, sydd trwy ei gyfrolau hanes lleol, wedi cyfrannu'n helaeth i gadw'n fyw yr hanesion a'r cymeriadau y buom yn eu cofio ar ein taith.




### Cofio Waldo

Ymlaen wedyn ar ein taith i'r rhos hardd ei wedd yn y pant rhwng y mynyddoedd ym Mynachlog-ddu. Oedi, gan fwynhau'r olygfa wrth ymyl Carreg Waldo lle cawsom wrando ar ei gerdd hudolus 'Cofio', gyflwynwyd gan Maria Evans, a detholiad o gerdd mewn tafodiaith o eiddo W. R. i gofio ei hen gyfaill sef 'Ar werth (myfyrdod wrth garreg goffa Waldo)' y gerdd sy'n cloi mor deimladwy am Waldo yn wylo yn y nefoedd wrth iddo edrych i lawr, gyda dagre jogel yn ei liged, 'Pan glywodd e bod y Gwmra'g in clifachu'n Minachlogddu.' Cawsom oedi wedyn wrth y fynedfa i Glynsaithmaen, y cartref a'r ffermdy lle maged W. R. a lle mae yno garreg goffa a roddwyd gan barti Bois y Frenni i gofio am ddawn eu sefydlydd, a chawsom glywed yr hanes am y sgubor Glynsaithmaen ar y fferm lle cyfarfu'r amaethwyr fu'n cynllwynio yn y dirgel, ac a wnaeth dan arweiniad Twm Carnabwth, oedd wedi ei wisgo yn nillad Beca Fawr, chwalu droeon yr iet yn yr Efail-wen. Mae'r hanes wedi ei grynhoi ar fwrdd arddangos wrth ymyl y gofeb i W. R., fel y byrddau sy'n crynhoi peth o'r hanes am Niclas y Glais a Waldo wrth ymyl eu meini coffa hwythau.

### Cadw'r ffynnon rhag y baw

Ymlaen wedyn i Faenclochog a chyn cyrraedd y pentref oedi wrth ymyl carreg goffa Joseph James ac arni adlais o eiriau Waldo: 'Cadwodd fur y Preselau rhag y bwystfil'; carreg sy'n edrych dros bentref Maenclochog, a fyddai, oni bai am y fuddugoliaeth i ddiogelu'r Preselau, yn bentref garsiwn i'r lluoedd arfog heddiw. Ac mae neges y gerdd 'Preseli' yn oesol ei harwyddocâd: 'Cadwn y mur rhag y bwystfil, cadwn y ffynnon rhag y baw.'

Cawsom awr o doriad wedyn ym mhentref Maenclochog, clywed cerdd W. R. gyda'u llinellau 'ond ym min hwyr, dros waun a chlog, mwyn yw clychau Maenclochog', sef cerdd fel y byrddau arddangos yn y pentref sy'n ein cyflwyno i darddiad enw'r pentref ac i'w hanes, hen a chyfoes. Cawsom glywed hefyd englynion i fardd amlycaf y Preselau heddiw, sef Eirwyn George, ei englyn i'r pentref ac englyn coffa i Dilwyn Edwards, y digrifwr ac arweinydd nosweithiau llawen, y gwelir yr englyn ar garreg goffa iddo islaw Eglwys y Santes Fair yn y pentref a chyferbyn a Chaffi'r Sgwâr, lle'r oedd Alice Eynon, sy'n rhedeg y caffi heddiw, diolch iddi, wedi ei gadw ar agor wedi'r amser cau er mwyn i ninnau'r pererinion gael torri'n syched gan fwynhau paned a theisen.

Gwnaethom orffen ein diwrnod trwy wledda'n llawen gyda'n gilydd dros swper yng ngwesty Nant-y-ffin, Llandysilio, ac wedi i bawb gael ei wala, teg wedyn oedd edrych tuag adref. Cawsom ddiwrnod i'w gofio a thywydd a hin braf i'w fwynhau.

**Emyr Gwyn Evans**

# Hi Viz




Un prosiect sydd yn yr arfaeth gan eglwys Ebeneser, Caerdydd, yn ystod y misoedd nesaf yw casglu sbwriel mewn amrywiol ardaloedd o'r brifddinas. Penderfynodd y gweinidog archebu sircyn "High Viz" er mwyn ei gyflwyno fel rhodd i John Hayes gafodd y syniad yn y lle cyntaf. Gwaetha'r modd bu ychydig o gamddealltwriaeth rhyngom a'r argraffydd. Gofynnwyd mewn e-bost i'r cwmni cynhyrchu, "Can you put the word Ebeneser, with an S on the back please?"

I weld beth oedd y canlyniad edrychwch ar y llun!



# Barn Annibynnol

## ‘Darlleniadau hawdd ac anodd’

Mi hoffwn gynnal arolwg cenedlaethol. Hoffwn ofyn i gapeli Cymru gofnodi pa ddarlleniadau o’r Beibl a ddewisir i’w hoedfaon gydol y flwyddyn. Tybed pa rai a ddeuai i’r deg ucha?

Byddai’n heglwysi, wrth gwrs, a rhai o’n capeli, yn dilyn Darlleniadur yr Eglwys, sy’n gosod darnau penodol ar gyfer pob Sul. Un fantais i hyn yw ei fod yn ein gorfodi i roi sylw i ddarlleniadau na ddewisem ni byth o’n gwirfodd, ac felly’n ein harwain i dorri cwrs newydd yn ein myfyrdodau.

### Datguddiad

O ran y darnau a ddewiswn ein hunain, mae’n ddiddorol bod llyfrau cyfan yn y Beibl nad ydw i erioed wedi clywed darlleniad ohonyn nhw na phregethu arnyn nhw. Ysgrifennodd Noel Davies yn ddiweddar yn y golofn hon am benderfyniad yr Eglwys Fethodistaidd i ganolbwyntio ar Lyfr y Datguddiad yn eu Mis y Beibl eleni a bod hynny wedi codi dychryn ar lawer o’u haelodau!

Chlywes i erioed drafod Caniad Solomon mewn oedfa, er gwaetha hyfrydwch barddonol y penodau: ‘Cusana fi â chusanau dy wefusau, oherwydd y mae dy gariad yn well na gwin ...’ Rhy erotig i gulni ein meddwl anghydffurfiol, efalle!



### Gwaedlyd

Ry’n ni’n cadw’n glir hefyd rhag rhannau sylweddol o lyfrau’r Barnwyr, y Brenhinoedd a’r Cronicl lle mae gwaed yn llifo’n helaeth. Dyna hanes eneinio Jehu’n frenin Israel a hwnnw’n torri pennau 70 o feibion Ahab cyn mynd ymlaen i ladd ‘... bawb oedd ar ôl o deulu Ahab yn Jesreel, a’i holl uchelwyr a’i gyfeillion a’i offeiriaid, heb adael neb ...’ Dywedir taw ewyllys Duw yw’r gyflafan am fod ‘yr Arglwydd wedi gwneud yr hyn a addawodd drwy ei was Elias ...’ Mae digonedd o hanesion eraill o’r fath na chlywn mohonyn nhw yn ein defosiwn.

Gwrandawsom droeon, tebyg iawn, ar stori’r Israeliaid a’u taith o’u caethiwed yn yr Aifft i feddiannu Gwlad yr Addewid. Ond faint o sylw a roddwyd yn y gwasanaethau hynny i gampwaith byddin Joshua o ddinistrio rhyw 30 o ddinasoedd pobloedd Canaan a lladd eu trigolion neu’u gyrru ar ffo? Canmolir Duw am ei gymorth yn y gwaith hwn yn Salm 80: ‘Daethost â gwinwydden o’r Aifft [sef cenedl Israel], gyrraist allan genhedloedd er mwyn ei phlannu.’

### Salm a chyfraith

Y salmau wedyn. Oes, mae cysur a nerth i’w cael yn yr adnodau lu sy’n canmol haelioni Duw ac yn erfyn am ei drugaredd. Ond mae hefyd ddarnau niferus sy’n bytheirio yn erbyn ‘gelynion Duw’, fel Salm 21: ‘... bydd yr Arglwydd yn eu difa yn ei lid a’r tân yn eu hysu. Byddi’n dinistrio eu hepil oddi ar y ddaear ...’ Pa mor aml ydyn ni’n darllen y rheiny?

Os trown at lyfrau’r Gyfraith, byddwn, wrth reswm, yn pwysleisio’n deddfau sy’n cyfarwyddo, ‘Na ladd ... na ladrata ...’ neu ‘Paid â gorthrymu’r estron ...’ Ond beth wnawn ni â ‘Paid â gadael i ddewines fyw ...’, ‘Pwy bynnag sy’n aberthu i unrhyw dduw heblaw’r Arglwydd yn unig, distrywier ef yn llwyr’ ac, ‘os bydd dyn yn gorwedd gyda dyn fel gyda gwraig, y maent i’w rhoi i farwolaeth’? Defnyddiwyd adnodau felly i erlid diniweitiaid hyd yr oesoedd.

### Dewis a dethol

Ry’n ni’n osgoi’r holl ddarnau hyn am eu bod yn cyflwyno math o dduw dialgar sy’n gwbl groes i’n gweledigaeth ni o’n Duw cariadus a thosturiol. Eto i gyd, maen nhw’n rhan o ysgrythur sanctaidd y Cristion. Oes gennyn ni hawl i ddethol a dewis y ffrwythau o arlwy’r Beibl sy’n flasus a melys ar ein tafod ond anwybyddu’r rhai sydd â blas chwerw ac sy’n anodd eu treulio? Onid yw’r ‘oll yn gysegredig’?

Byddai rhai’n dadlau taw enghreifftiau o’r Hen Destament yw’r uchod i gyd. Bod ein Ffydd Gristnogol yn seiliedig ar y Testament Newydd a’r Cyfamod Newydd trwy Iesu. Ond adeiledir y Testament Newydd ar gynnwys yr Hen mewn sawl ffordd. Mae angen deall negeseuon rhan gynta’r Beibl er mwyn gwir werthfawrogi’r ail ran.

Am hynny, byddai’n annoeth anwybyddu’n llwyr y rhannau o’r Gair sy ddim wrth ein boddau. Trwy drafod y rhain, ystyried eu cyd-destun hanesyddol ac ymrafael â’u hystyron gallwn ddyfnhau ein dealltwriaeth o’r Beibl cyfan a chyfoethogi ein Ffydd. Peidiwn â bod ofn!

Gall darllen pethau anodd fod yn rhiw serth ar adegau. Ond trwy esgyn y rhiw cawn weld y goleuni y tu hwnt iddi.

**Robat Powell**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)




EGLWYS RYDD HAMPSTEAD GARDEN SUBURB

Central Square, Llundain NW11 7AG

Mae croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni yn

**OEDFA SEFYDLU’R PARCH ALED JONES**

yn yr Eglwys Rydd ar

**brynhawn Sadwrn 2 Medi am 2 o’r gloch**

Darperir lluniaeth wedi’r oedfa



**Drysau Agored Tabernacl Porth-cawl**

**dydd Sadwrn, 2 Medi, 10yb–4yp**

Dewch i ymweld â chapel y Tabernacl Porth-cawl



* Capel hanesyddol â phensaernïaeth art deco
* Gweithgareddau hwyliog i’r teulu cyfan
* Lluniaeth a chyfle i gwrdd â’n haelodau a’r gymuned leol Gymraeg

Mwy o fanylion ar ein gwefan: GlannauOgwr.cymru

Trefnwyd fel rhan o ŵyl Drysau Agored Cadw 2023

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# O'r Allt-wen i'r Groes-wen
# Pererindod yr haf

Tybed faint ohonoch sy'n gyfarwydd, neu wedi clywed am y Groes-wen, capel anghysbell yng nghymuned Penyrheol, Trecenydd ac Enau'r Glyn ger Caerffili? Mae gan y capel lle canolog yn hanes dechreuadau'r diwygiad Methodistaidd yng Nghymru gan mai hwn oedd yr adeilad cyntaf i'w godi yn bwrpasol at ddefnydd y mudiad. Bu Howel Harries a Williams Pantycelyn yn ymwelwyr cyson. Maes o law daeth yn eiddo i'r Annibynwyr yn 1746. Gerllaw, ganwyd y peiriannydd William Edwards. Ef oedd sylfaenydd ac adeiladydd y capel yn 1742 a phont enwog Pontypridd. Mae'n fwy perthnasol i ni yng Nghwmtawe gan mai ef adeiladodd y bont un-bwa ger y Gwachel, Pontardawe.



*Aelodau a chyfeillion yr Allt-wen o flaen capel y Groes-wen*

Treuliodd William Williams (Caledfryn) gyfnod yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn y Groes-wen ac fe'i claddwyd yn y fynwent yn 1869. Yno hefyd mae'r llenor a newyddiadurwr Ieuan Gwynedd. Mae nifer o feddfeini, mawr, trawiadol yn y fynwent a chyfeirir at gapel y Groes-wen fel Abaty Westminster Cymru am fod cymaint o enwogion a chewri Anghydffurfiol wedi eu claddu yno.

Braf oedd cael cydaddoli gyda'r aelodau yno a chael ychydig o'r hanes gan Vaughan Roderick, newyddiadurwr craff y BBC, sy'n aelod yno. Cawsom ddishgled a theisen yn y festri a chyfle i gwrdd â'r aelodau croesawgar a gweld y darluniau trawiadol sy'n cofnodi hanes cyfoethog un o berlau Anghydffurfiol Cymru.

Braf oedd cael pererindota unwaith eto a theithio i le anghyfarwydd. Diolch i Delma James am y trefniadau penigamp ac i'n gweinidog, y Parchg Gareth Morgan Jones am ei arweiniad a'i sylwadau pwrpasol.

**Gareth Richards**




## Eglwysi Annibynnol Gellimanwydd Rhydaman a Moreia Tycroes

Cynhelir

## Cyfarfod Sefydlu y Parchedig Ddr EMYR GWYN EVANS, BD

**(Eglwysi Gofalaeth Bröydd Myrddin)**

yn weinidog i Iesu Grist yn yr eglwysi uchod yng

**NGHAPEL GELLIMANWYDD RHYDAMAN**

**nos Fercher 20 Medi 2023**

**am 7.00 o'r gloch**

Gwahoddir chwi yn gynnes i'r cyfarfod

Darperir lluniaeth yn neuadd Gellimanwydd

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*